

05/01/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y gwyddoch yn dilyn cyhoeddiad neithiwr gan y Gweinidog Addysg ([gweler yma](#)), ni fydd dysgu wyneb i wyneb mewn ysgolion yng Nghymru tan y 18fed o Ionawr ar y cynharaf. Yn ogystal, gweler y [llythyr yma](#) gan Gyfarwyddwr Addysg Dros Dro Abertawe gyda gwybodaeth pellach.

Yn sgil hyn, gweler ein trefniadau ni ym Mryn Tawe hyd at y 18fed:

- Byddwn yn darparu cyfuniad o wersi 'byw'; esboniadau wedi'u recordio â thasgau amrywiol dros 'Teams' i bob disgybl o flynyddoedd 7-13eg, yn unol â'u hamserlen ddyddiol (cofiwch taw **wythnos 2 ar yr amserlen yw'r wythnos hon**).
- Mae'n bwysig bod ein disgyblion yn brydlon i'w gwersi bob dydd ac yn gwirio pa waith sydd angen cwblhau yn ddyddiol.
- Bydd cyfarfod fesul blwyddyn fore Mercher y 6ed a Gwener yr 8fed am 08:40 i bob blwyddyn. Bydd cyfarfodydd wythnos nesaf yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion maes o law.
- Unwaith eto, os oes angen teclyn digidol ar eich plentyn i fynychu, cysylltwch gyda Mrs Nerys Vaughan i drefnu benthg: VaughanN9@hwbcymru.net

Nodyn i'ch atgoffa eto y cafodd **adroddiad interim eich plentyn** neu adroddiad 'Noson Rien' i flwyddyn 11 ei e-bostio at gyfeiriad e-bost hwb eich plentyn cyn y gwyliau. Mae rhieni disgyblion blwyddyn 7 hefyd wedi derbyn gwybodaeth am gyrhaeddiad eu plentyn yn dilyn y profion CATs yn gynt yn y tymor. Os nad ydych wedi derbyn yr adroddiad neu os ydych am drafod adroddiad eich plentyn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Bydd rhai disgyblion yn mynychu'r ysgol fel y gallwn ni gefnogi eu lles a byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth gwarchod argyfwng i ddisgyblion blynyddoedd 7+8 - cwblhewch yr [holiadur yma](#) am fanylion i drefnu lle.

Mae'n gyfnod ansicr iawn ar hyn o bryd i bawb, ond byddaf yn cysylltu gyda chi gyda manylion dychwelyd i Bryn Tawe pan fydd yn ddiogel i ddisgyblion i wneud, cyn gynted ag y bod modd. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth wrth i ni symud at ddysgu o bell. Cofiwch ein bod yma i gefnogi ein disgyblion a chithau'r gorau allwn ni, felly cysylltwch i drafod unrhyw fater am les neu ddysgu eich plentyn?

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR | Aur
MEWN POBL



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

